DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 22 HYDREF 2015 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 22 OCTOBER 2015, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall on Dydd Iau, 22 Hydref 2015 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**MARIE ROSENTHAL**
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 16 Hydref 2015

| *Eitem* | | *Amser yn fras* | *Yr amserr hwyaf a ganiateir* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Datganiadau o fuddiant**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **3** | **Cofnodion**<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **4** | **Is-etholiad Glan-yr-afon**<br><br>*Adrodd ar ganlyniad Is-etholiad Glan-yr-afon a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2015 a chroesawu'r Cynghorydd Caro Wild.* | 4.40 pm | 5 mins |
| **5** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau* | 4.45 pm | 5 mins |
| **6** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig I'r Cyngor.* | 4.50 pm | 15 mins |
| **7** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br><br>*Derbyn cwestiynau a nodwyd yn flaenorol gan y Cyhoedd.* | 5.05 pm | 15 mins |
| **8** | **Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Dinas Caerdydd 2014/2015**<br>*(Tudalennau 1 - 80)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 wedi'i atodi.* | 5.20 pm | 30 mins |
| **9** | **Addroddiad Blynyddol yr Aelod-Hyrwydwyr**<br>*(Tudalennau 81 - 94)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol gan gynnwys adroddiad blynyddol yr Aelod Hyrwyddwyr.* | 5.50 pm | 10 mins |
| **10** | **Datganiadau**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet a chwestiynau gan Aelodau ar y datganiadau.* | 6.00 pm | 45 mins |

| Hysbysiadau Cynnig | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | **Cynnig 1**<br><br>*Mae'r Cyngor yn nodi newidiadau deddfwriaethol y DU a ddygwyd ymlaen trwy Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 a'r diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ac yn croesawu'r ffaith ei fod bellach yn drosedd i fod yn berchen ar neu'n gyfrifol am gi sy'n beryglus ac allan o reolaeth mewn unrhyw le, gan gynnwys eiddo preifat.*<br><br>*Yn arbennig, mae'r Cyngor yn cefnogi ymestyn y gyfraith i gynnwys ymosodiadau ar gŵn cymorth pan fo un o bob deg o gŵn cymorth yn cael eu hymosod arnynt bob blwyddyn yng Nghymru.*<br><br>*Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn siomedig y tynnwyd y Bil Rheoli Cŵn drafft yn ôl gan Llywodraeth Cymru yn 2013 gan fod y Llywodraeth o'r farn y byddai'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn cyflwyno Hysbysiadau Rheoli Cŵn oherwydd er gwaetha'r ffaith fod nifer o sefydliadau, Cynghorwyr Caerdydd, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a Chyfoedion wedi lobïo, ni chafodd yr Hysbysiadau Rheoli Cŵn hyn eu rhoi ar waith fel rhan o'r Ddeddf.*<br><br>*Felly geilw'r Cyngor ar Lywodraeth Cymru i gydnabod y pryderon mawr sydd ynghylch addysgu am fod yn berchennog ci cyfrifol yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o hynny (gan gynnwys y rheiny yn yr Adroddiad Craffu ar CASSC a'r Amgylchedd ar Reoli Cŵn Peryglus yng Nghaerdydd) a chyflwyno deddfwriaeth i roi Hysbysiadau Rheoli Cŵn ar waith yng Nghymru cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl adolygu'r holl offerynnau, gwersi ac arferion da eraill sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.*<br><br>*Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Dilwar Ali*<br><br>*Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Mitchell* | 6.45 pm | 30 mins |
| 12 | **Cynnig 2**<br><br>*Mae gan Gyngor Caerdydd uchelgais i symud i raniad moddol 50:50 rhwng ceir a thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi taw ein gweledigaeth i Gaerdydd yw dod y 'brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop".* | 7.15 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Mae gan nifer o ddinasoedd yn y DU ac o amgylch y byd ddiwrnodau di-draffig lle mae'r strydoedd ar gau i gerbydau gan roi'r cyfle i breswylwyr lleol fwynhau canol y ddinas mewn awyrgylch di-lygredd, heddychlon ac sy'n addas i'r teulu. Mae'r Cyngor felly'n cytuno y dylai Caerdydd gael diwrnod di-draffig yn 2016 gyda phrif strydoedd canol y ddinas ar gau i draffig ac y dylid cynnal diwrnod di-draffig bob blwyddyn.'*<br><br>*Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Richard Cook*<br><br>*Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Christopher Weaver* | | |
| **13** | **Cynnig 3**<br><br>*Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 26 Tachwedd 2013, i Gynllun Datblygu Lleol (ar Adnau) y Cyngor. Yn eu hymateb fe wnaethon nhw gynnwys adran ar y Llain Las,*<br><br>*fel a ganlyn:-*<br><br>*"Mae Llywodraeth Cymru yn erbyn cynnwys Polisi KP3 (A) 'Llain Las' a nodi'r ardal a ddangosir ar y Map Cynigion, y dylid cael gwared arno'n gyfan gwbl.*<br><br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen darlunio ardal o'r fath oherwydd gellid defnyddio polisïau eraill i wrthod cynigion amhriodol. Gyda'r gyfres bresennol o gynigion sydd yn y CDLl i ddiwallu'r anghenion a nodwyd h.y. tai, nid oes angen polisïau pellach sydd ond yn dyblygu strwythur polisi presennol y cynllun. Mae hyn yn ddiangen".*<br><br>*Rydym yn galw ar Gyngor Caerdydd i ailddatgan ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r Llain Las ac amddiffyn ardaloedd gwyrdd Caerdydd a gwrthwynebu lletem las a fydd ond yn amddiffyn yr ardal am hyd y cynllun. Mae angen sicrwydd pendant.*<br><br>*Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Jayne Cowan*<br><br>*Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Roderick McKerlich* | 7.45 pm | 30 mins |
| **14** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r* | 8.15 pm | 90 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Awdurdod Tân.* | | |
| **15** | **Materion Brys** | 9.45 pm | 5 mins |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **16** | **Penodi Llywoderaethwyr Awdurdod Lleol i Gyrff llywodraethu Ysgolion**<br>*(Tudalennau 95 - 100)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol gan gynnwys yr argymhellion gan Banel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 15 Hydref 2015 wedi'i atodi.* | 9.50 pm | 5 mins |
| **17** | **Penodi i Swyddi Gwag y Pwyllgor**<br>*(Tudalennau 101 - 102)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | 9.55 pm | 5 mins |
| **18** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |